**EITEM AR YR AGENDA: 10**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**20 Gorffennaf 2015**

**RHAGLEN CYSYLLTIADAU SYMUDOL Y GWASANAETHAU BRYS**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Diben y papur hwn yw rhoi'r diweddaraf i'r Aelodau am Raglen Cysylltiadau Symudol y Gwasanaethau Brys (Rhaglen yr ESMCP) ac atgoffa'r aelodau am y risgiau posibl i'r prosiect cenedlaethol hwn, sy'n ymwneud â phob gwasanaeth brys yn y Deyrnas Unedig.

## Cefndir

2 Fel y mae'r Aelodau'n ymwybodol; ymhob un o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru, bydd darparu cysylltiadau radio, drwy gontract sy'n cael ei gaffael yn genedlaethol, yn dod i ben yn Rhagfyr 2016. Mae prosiect newydd, o'r enw Rhaglen Cysylltiadau Symudol y Gwasanaethau Brys *(Emergency Service Mobile Communication Programme (ESMCP))*, wedi cael ei sefydlu gan Lywodraeth Ei Mawrhydi ac yn cael ei arwain gan y Swyddfa Gartref i ddarparu gwasanaeth newydd.

## Gwybodaeth

3 Roedd y papur gwreiddiol a gyflwynwyd i'r Panel Gweithredol ar 24 Hydref 2014 yn cynnwys y graddfeydd amser a ganlyn ar gyfer y prosiect hwn:

- Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol yn Ebrill 2014
- Rhyddhau Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU) a'r Holiadur Rhag-Gymhwyso (PQQ) yn Ebrill 2014
- Rhyddhau'r Gwahoddiad i Dendro yn haf 2014
- Dychwelyd y tendrau yn hydref 2014
- Gwerthuso'r Tendrau a'r Dechnoleg yng ngaeaf 2014
- Cymeradwyo'r Achos Busnes Terfynol yng ngwanwyn 2015

- Dyfarnu’r Contract yng ngwanwyn 2015
- Gwneud paratoadau rhwng Gwanwyn 2015 a chyfnod olaf 2016
- Cychwyn y Gwasanaeth yng nghyfnod olaf 2016

4 Mae hi’n haf 2015 arnom erbyn hyn ac mae tîm y prosiect cenedlaethol wrthi’n gwerthuso’r “Cynigion Gorau a Therfynol” gan gyflenwyr posibl felly mae’n debygol y bydd y contractau’n cael eu dyfarnu hyd at fis Hydref 2015. Ni fydd hyn yn effeithio ar hyn o bryd ar gyflwyno’r prosiect yng Nghymru os byddwn yn aros at ddiwedd y cynllun i’w gyflwyno’n raddol.

## Risgiau

5 Mater sy’n peri mwy o bryder yw cost Rhaglen yr ESMCP, a ddylai fod yn rhatach na’r system Airwave bresennol yn ôl yr achos busnes. Ond mae nifer o gyflenwyr posibl wedi tynnu allan o’r broses gaffael gan adael un lot gydag un darparwr, ac mae hynny’n rhoi’r darparwr hwnnw mewn sefyllfa gref iawn o ran negodi.

6 Yn y cyfamser, galwyd am ymestyn contract y darparwr presennol er mwyn parhau i ddarparu Airwave hyd at ddiwedd 2019. Mae cost y contract yr un fath â’r hyn a godir ar hyn o bryd. Yn y gorffennol cefnogwyd y gwariant hwn gan grant penodol gan Lywodraeth Cymru a oedd yn £1.64 miliwn y flwyddyn ar gyfer y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru. Derbyniodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru £416k yn 2015. Mae’r grant hwn i fod i ddod i ben yn Ebrill 2016. Mae’r swyddogion wrthi’n gweithio â swyddogion Llywodraeth Cymru i ddatblygu achos busnes ar gyfer parhau â’r grant hyd nes y bydd Cymru wedi symud i’r ESMCP erbyn 2019.

7 Parhau y mae’r pryderon gwreiddiol na fydd y system newydd yn darparu gallu gweithredol derbyniol, gan gynnwys signal a chydnerthedd yng Nghymru, ac mae hyn yn cael ei fonitro gan Gyd-Grŵp y Gwasanaethau Brys (JESG) a’i ffrydiau gwaith cysylltiedig.

8 Mae’r Cyd-Grŵp hefyd wedi cymeradwyo ariannu rheolwr prosiect ar y cyd i gynorthwyo i gydlynu yn yr holl wasanaethau brys wrth baratoi i symud i’r ESMCP. Disgwylir tair blynedd o baratoi cyn ‘mynd yn fyw’.

## Argymhelliad

9 Bod yr Aelodau’n nodi’r wybodaeth a ddarperir a’u bod yn cadw golwg ar y risgiau sy’n gysylltiedig â’r prosiect cenedlaethol hwn.